Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dihewyd
# Dihewyd
# Llanbedr Pont Steffan
# Ceredigion
# SA48 7PN

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/03/2014**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref Dihewyd, hanner ffordd rhwng trefi Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron. Mae’r ysgol yn gwasanaethu ardal amaethyddol ac fe’i chynhelir gan awdurdod lleol Sir Ceredigion. Mae 19 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, sy’n llai nag adeg yr arolygiad diwethaf ym mis Ionawr 2008. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddyn nhw drosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Daw saith disgybl o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae’r ysgol yn derbyn plant o’r holl ystod allu ar ddechrau’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, ychydig o ddisgyblion sydd wedi eu harenwi fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Does dim un disgybl ar hyn o bryd â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae newid sylweddol wedi bod yn yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd staff, penodwyd y pennaeth, sydd hefyd yn bennaeth ar ysgol gyfagos, ym mis Medi 2011. Penodwyd y pennaeth â gofal ac athrawes y Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dihewyd yn 2013-2014 yw £9,062. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Gynradd Dihewyd yn y safle cyntaf o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Gynradd Dihewyd yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- bod yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu amrywiol sy'n hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion;
- bod ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol;
- bod bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n gydwybodol a brwdfrydig mewn gwersi; a
- bod y disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Gynradd Dihewyd yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth amcanion clir ar gyfer datblygu'r ysgol;
- bod y staff yn gefnogol i'r pennaeth;
- bod y corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda;
- bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen iddynt eu gwella; a
- bod partneriaeth gref yn bodoli gyda'r rhieni a'r gymuned.

## Argymhellion

R1 Gwella presenoldeb disgyblion

R2 Mireinio cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau bod pob elfen o’r cwricwlwm statudol yn derbyn sylw priodol

R3 Mireinio adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd eu plant er mwyn sicrhau eu bod yn cyfeirio at bob maes dysgu a phwnc yn llawn

R4 Sicrhau bod meini prawf llwyddiant amcanion y cynllun gwella ysgol yn benodol ac yn fesuradwy

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl ar bob math o achlysur. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Mae'r mwyafrif yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall disgyblion saith mlwydd oed ysgrifennu darnau lled synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael dda ar atalnodi sylfaenol.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Maent yn medru siarad am eu gwaith â hyder cynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gall y mwyafrif fynegi barn am wahanol faterion sy'n bwysig iddyn nhw yn fedrus. Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n dda iawn. Mae'r mwyafrif yn darllen deunyddiau pwrpasol ar goedd yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu'n greadigol a chywir i ystod o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'n briodol ac yn gosod eu gwaith yn drefnus mewn paragraffau. Mae safon llawysgrifen y mwyafrif yn dda ac maent yn medru cyflwyno'u gwaith yn daclus ac yn greadigol, yn arbennig yn eu 'Log Dysgu'.

Mae medrau rhifedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddefnyddio'u medrau rhifedd yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mesur hyd neu ddidoli gwrthrychau'n briodol i grŵp o bethau magnetig a grŵp o bethau sydd dim yn fagnetig. Mae'r mwyafrif yn gallu defnyddio'u gwybodaeth am rif yn gynyddol hyderus mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mwynhau datrys heriau mathemategol. Gallant ddyfalu rheolau patrymau rhif yn gywir o'u cyflwyno i gliwiau priodol. Gallant ddefnyddio'u gwybodaeth o siartiau a graffiau yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm i safon sy'n cyd-fynd â'u medrau mewn mathemateg. Enghraifft dda o hyn yw'r cofnodion o waith ymchwilio i gryfder papur mewn arbrawf gwyddonol. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o luosi a gallant ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddyn nhw i ddatrys heriau yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau.

Gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fechan iawn, nid yw'n synhwyrol i roi ystyriaeth i'r tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol.

Yn 2013, mae perfformiad y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch na'r disgwyl yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na

chyfartaledd perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Maent hefyd yn is mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim ac wedi eu gosod yn y 25% isaf.

Mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 yn 2013 yn well, gyda phob disgybl yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, a'r Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Fodd bynnag, mae'r canran sy'n cyrraedd lefelau sy'n uwch na'r disgwyl yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim.

Nid yw'n bosibl cymharu cyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod gan nad oes disgyblion felly mewn nifer o'r blynyddoedd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gan fod nifer y disgyblion mor fechan, nid yw'n deg cymharu cyflawniad y bechgyn gyda'r merched. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n gydwybodol a brwdfrydig mewn gwersi. Mae ymddygiad a chwrteisi disgyblion yn dda.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n iach. Mae bron pob un yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach ac mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth glir o ffactorau sy'n debygol o effeithio ar eu iechyd.

Mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae'r disgyblion yn manteisio'n dda ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy gyfrannu at gynllunio gweithgareddau'r dosbarth yn ystod gwaith thematig. Maent yn feddylgar wrth wneud penderfyniadau priodol ar y cyngor ysgol a'r cyngor eco, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol. Maent yn cymryd rhan mewn mentrau ymarferol fel tyfu llysiau a'u gwerthu i'r cyhoedd, a hefyd yn eu defnyddio fel cynhwysion yn y clwb coginio i wneud prydau bwyd i aelodau'r gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

Mae canran presenoldeb disgyblion yn gyson o dan 92%. Er bod llawer o ffactorau sy'n cyfrannu at hyn y tu hwnt i reolaeth yr ysgol, mae'n ei gosod yn y 25% isaf yn gyson mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog, amrywiol a thrawsgwricwlaidd sy'n hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion. Mae'r gweithgareddau menter a ddarperir yn llwyddiannus ac yn hyrwyddo agweddau megis llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl yn dda. Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol drwy ddarparu nifer o ymweliadau allanol buddiol. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl disgyblion sy'n dechrau amlygu'u hunain yn gadarnhaol yn eu gwaith.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r dasg o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y tymor hir. Mae cynlluniau priodol ar waith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi ei fapio'n ddigonol hyd yn hyn er mwyn sicrhau cyflawniad yn y tymor hir. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru a datblygiad y Gymraeg yn gryf. Trwy waith thema ac ymweliadau â mannau diddorol, mae dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol yn datblygu'n dda. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn teimlo eu bod yn rhan werthfawr o'u cymuned.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Enghraifft da o hyn yw brwdfrydedd y disgyblion i gefnogi nifer o brosiectau eco a chefnogi elusen ddŵr ym Madagascar.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth. Mae'r athrawon yn modelu iaith glir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad iaith lafar y disgyblion. Mae'r staff cynorthwyol yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol, gan sicrhau eu bod yn cefnogi anghenion y disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr ac, yn yr enghreifftiau gorau, yn rhoi sylwadau adeiladol iddynt ar sut i wella'u hymdrechion yn gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Mae'r broses o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol wedi'i sefydlu drwy'r ysgol ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Mae'r ysgol wedi cychwyn defnyddio system briodol i olrhain cynnydd disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cynllunio ac ar dargedu disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth priodol.

Er bod rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gyflawniadau, rhinweddau personol a datblygiad eu plant, nid yw'r adroddiadau ysgrifenedig yn cyfarfod â'r holl ofynion. Nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr, nac yn cyfeirio'n benodol at gynnydd ym mhob pwnc neu agwedd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol, lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd. O ganlyniad, mae ethos cynhaliol yn bodoli sy'n sicrhau dysgu da. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r holl ddisgyblion gefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol. Enghraifft bwysig o hyn yw'r cynhyrchiad ysgol gyfan a berfformiwyd yn neuadd y pentref yn ddiweddar, sydd wedi sicrhau bod holl randdeiliaid yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn yr un modd, caiff datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei hybu'n llwyddiannus mewn sesiynau addoli ar y cyd, yn ystod y gwersi ac ar adegau eraill yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae polisïau a systemau priodol ar waith ar gyfer hybu presenoldeb da. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion hyd yn hyn.

Mae disgyblion a'r rhieni yn eu tro yn teimlo'n hyderus i gysylltu gydag aelodau o staff pan fyddant yn teimlo bod arnynt angen cyngor ac arweiniad. Trwy gydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth eraill, mae'r ysgol mewn sefyllfa i gynnig arweiniad, cymorth a gwybodaeth effeithiol i ddisgyblion a rhieni, pan fydd angen.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol iawn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon a defnyddia'r ysgol y wybodaeth o arsylwadau a phrofion yn effeithiol i ddarparu ystod addas o raglenni ymyrraeth ar eu cyfer. Mewn ymgynghoriad â'r athrawes arbenigol sy'n treulio cyfnod rheolaidd yn yr ysgol, mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol cynhwysfawr a o ansawdd da ar gyfer unigolion. Maent yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn rheolaidd ac yn effeithiol gyda'r disgyblion a'u rhieni.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a pharchu amrywiaeth unigolion a chaiff pob disgybl hawl gyfartal. Mae arweinwyr yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau yn dioddef triniaeth lai ffafriol. Mae polisïau priodol ar waith sy'n annog unigolion i feithrin agweddau goddefgar er mwyn sicrhau bod disgyblion a staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau ac i weithredu'n briodol arnynt.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon briodol. Gwneir defnydd priodol o'r adeilad a'r tir o'i gwmpas i gefnogi'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau awyr agored i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen ac i hybu gwybodaeth y disgyblion am ecoleg a chynaliadwyedd.

Mae gan yr ysgol ardd lysiau sy’n annog disgyblion i fwyta’n iach ac i ddefnyddio’r cynnyrch i ddatblygu eu gwybodaeth am fentergarwch. Atgyfnerthir hyn gyda chysylltiadau â’r gymuned gyfagos a busnesau lleol. Mae hyn yn ychwanegu’n effeithiol tuag at brofiadau cwricwlaidd y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth amcanion clir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a chefnogi plant bregus. Llwydda i gyfleu’r amcanion hyn yn lled effeithiol i’r staff, y disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr. Caiff gefnogaeth dda gan y pennaeth â gofal a’r staff. Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae ganddi strwythurau a pholisïau priodol sy’n cyfrannu’n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Mae’r staff yn gweithio’n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau’n effeithiol.

Mae’r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi rhoi cychwyn priodol ar weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ond mae’n rhy gynnar i fesur ei effaith ar safonau’r disgyblion hyd yn hyn. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu’n briodol.

Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn dda ac yn gweithredu’n effeithiol fel ffrind beirniadol. Mae llywodraethwyr yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr ar berfformiad a cyrhaeddiad disgyblion. Maent yn mynd i’r afael â’r gwaith o arsylwi ar sesiynau dysgu ac ar graffu ar waith disgyblion. O ganlyniad, maent yn adnabod anghenion disgyblion unigol yn dda. Maent hefyd yn fwy ymwybodol o sut mae’r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill tebyg ac mewn sefyllfa gref i herio’r ysgol i sicrhau gwelliant.

## Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o’i chryfderau a’r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Mae’r arfer o hunanarfarnu yn sefydlu fel rhan o weithgareddau parhaus yr ysgol. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang a phriodol o weithdrefnau wrth arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth briodol i farn y llywodraethwyr, y rhieni, a’r disgyblion.

Mae’r broses hunanarfarnu wedi ei seilio’n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data a holiaduron i randdeiliaid. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i sicrhau cefnogaeth briodol i staff a disgyblion. Mae’r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu’n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy’n cynnig darlun cytbwys a chywir o’r ysgol.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau’r weithdrefn hunanarfarnu â blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol. Mae’r athrawon yn deall y rhesymau sy’n sail i’r blaenoriaethau ac maent yn ymwybodol o’u cyfrifoldeb wrth eu gweithredu. Mae’r cynllun wedi ei gostio’n briodol ac mae’r amserlen weithredu a chyfrifoldeb staff yn glir. Fodd bynnag, nid yw’r dangosyddion llwyddiant ar gyfer yr amcanion yn ddigon clir nac yn

hawdd i'w mesur. O ganlyniad, nid yw'n hawdd i reolwyr arfarnu i ba raddau mae'r ysgol yn llwyddo i gyflawni'r amcanion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae perthynas gadarn a chydweithio da yn digwydd rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r gymdeithas rieni yn weithgar ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae wedi codi symiau sylweddol o arian er mwyn cefnogi gweithgareddau penodol a chynnal lefelau staffio.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn cael lle blaenllaw yn y pentref ac mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr o'r gymuned a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu a ddarperir yn dda iawn. Mae hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd leol, sy'n hyrwyddo paratoadau disgyblion hŷn yn dda ar gyfer trosglwyddo a chymryd y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion y dalgylch, drwy gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi grymuso'r gwaith asesu yn effeithiol.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar les disgyblion. Ymysg ymwelwyr eraill, daw'r heddlu a'r nyrs yn eu tro i rannu gwybodaeth bwysig gyda'r disgyblion, a'u helpu i ddeall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ac iach.

Mae partneriaeth effeithiol iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a swyddogion adran addysg yr awdurdod lleol, sydd wedi cefnogi'r ysgol drwy adeg anodd iawn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol i fynd i'r afael â gofynion nifer y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. Defnyddia'r ysgol staff cynorthwyol yn effeithiol i gefnogi'r addysgu, rhoi cymorth i ddisgyblion, ac i ofalu amdanynt yn ystod y dydd.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a mynd i'r Afael â Baich Gwaith' ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu i sicrhau cyfleoedd dysgu cymwys i'r disgyblion. Mae prosesau rheoli perfformiad priodol ar waith, sy'n arwain at ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon.

Mae cyflenwad da o adnoddau o safon briodol ar gael i addysgu a dysgu. Mae rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr priodol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r adeilad a'r tir o gwmpas yr ysgol yn cael eu rheoli'n briodol a'u cadw'n lân a thaclus.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. O ystyried y deilliannau da a'r defnydd darbodus o'r cyllid, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fechan iawn, nid yw'n synhwyrol i roi ystyriaeth i dueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol.

Yn 2013, mae perfformiad y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaledd perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Maent hefyd yn is mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim a chyfartaledd Cymru gyfan. Mae perfformiad y disgyblion yn 2013 yn is o gymharu â'u perfformiad yn 2012, pan gyflawnodd pob disgybl y deilliannau disgwyliedig. Mae'r ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd Cyfnod Sylfaen, a'r deilliannau disgwyliedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol yn 2013. Yn 2012, roedd yn y 25% isaf ar gyfer y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd yn y 25% uchaf ar gyfer y deilliannau uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn 2012.

Mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 yn 2013 yn well, gyda phob disgybl yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, a'r Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg, ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim a chyfartaledd Cymru gyfan. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau hyn gyda rhai'r flwyddyn flaenorol gan nad oedd un disgybl ym Mlwyddyn 6 yn 2012. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na'r disgwyl yn 2013 yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a'r canran sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig ac uwch yn y pynciau craidd ar wahân.

Nid yw'n bosibl cymharu cyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod gan nad oes disgyblion felly mewn nifer o'r blynyddoedd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gan fod nifer y disgyblion mor fechan, nid yw'n deg cymharu cyflawniad y bechgyn gyda'r merched. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meicnod – mae hyn yn gyfanswm yr holl ymatebion ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 7 | 1 | 0 | 2 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 70% | 10% | 0% | 20% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 9 | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 5<br>56% | 3<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Emanuel | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geoff Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.